Papur i'w nodi
CfER 07/10/2013

**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

**Adolygiad o'r Cynllun ar gyfer Busnes – Diweddariad ar gynnydd**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn cynnig diweddariad i aelodau'r Cyngor ynghylch cynnydd gweithredu argymhellion Adolygiad y Cynllun ar Gyfer Busnes.

## Cefndir

2. Mae Adran 75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun sy'n amlinellu sut maent yn bwriadu ystyried buddiannau busnes wrth weithredu eu swyddogaethau.

3. Cafodd Cynllun ar gyfer Busnes Gweinidogion Cymru ("y Cynllun ar gyfer Busnes") ei ddrafftio ar ôl ymgynghori'n fanwl â Busnes Cymru a TUC Cymru. Cyhoeddwyd y Cynllun yn 2008, â chytundeb y Cabinet.

4. Mae'r Cynllun ar gyfer Busnes yn cynnwys y gofyniad y dylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad, o leiaf bob dwy flynedd, yn disgrifio sut mae'r cynigion a amlinellir yn y Cynllun ar gyfer Busnes wedi'u gweithredu. Mae'r rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o bob adroddiad a gyhoeddir i'r Cynulliad (Cynllun Busnes 2006, Paragraffau 3(6) a 3(7).

5. Cafod ail Adolygiad o Weithrediad ac Effaith y Cynllun ar gyfer Busnes ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Mawrth 2013.

## Diweddariad ar y Sefyllfa

6. Nododd yr Adolygiad wyth argymhelliad sy'n cael eu datblygu. Mae'r atodlen adolygedig yn cynnig diweddariad ar sefyllfa bob argymhelliad.

7. Cynigir y dylid cyflwyno diweddariadau yng nghyfarfod y Gweithgor a diweddariad ffurfiol ynghylch cynnydd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 3 Chwefror 2014.

Papur i'w nodi
CfER 07/10/2013

| **DIWEDDARIAD AR ARGYMHELLION ADOLYGIAD 2013 Y CYNLLUN AR GYFER BUSNES** | | |
|---|---|---|
| | **Cynnydd** | **Dyddiad Gorffen** |
| **Argymhelliad 1:** | | |
| Dylid diweddaru'r Cynllun ar gyfer Busnes. Dylai'r diweddariad gynnwys dangosyddion y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant. Dylai unrhyw ddiweddariad archwilio'r ffyrdd y caiff pob strwythur a sefydlir gan Lywodraeth Cymru eu hystyried yn y prosesau ymgynghori. Dylai Cyngor Adnewyddu'r Economi gytuno ar ddyddiad cau ar gyfer y diweddariad hwn. | Mae Llywodraeth Cymru ac Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru wedi cydweithio i ddrafftio dogfen ddiwygiedig. Mae sylwadau gan Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi'u hymgorffori. Anfonir y ddogfen ddrafft ddiweddaraf ynghylch Partneriaid Cymdeithasol i gael sylwadau ychwanegol.<br><br>Pan gytunir ar y drafft terfynol, bydd yr ymgynghori ffurfiol yn cychwyn.<br><br>Caiff y Cynllun ar gyfer Busnes diwygiedig ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r gofyniad statudol. | Mawrth 2014 |
| **Argymhelliad 2:** | | |
| Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol ymrwymo i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Busnes a'i egwyddorion sylfaenol. | Mae swyddogion Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i symud hyn ymlaen.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd â swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru yn ystod misoedd yr Haf. | Parhaus |
| **Argymhelliad 3:** | | |

| DIWEDDARIAD AR ARGYMHELLION ADOLYGIAD 2013 Y CYNLLUN AR GYFER BUSNES | | |
|---|---|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu a rhannu rhestr a ddiweddarir yn rheolaidd o'r uwch swyddogion arweiniol hynny ym mhob adran sy'n gyfrifol am y Cynllun Busnes yn eu hadran. Bydd y swyddogion hyn yn gyfrifol am sicrhau bod eu hadran yn ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â phartneriaid cymdeithasol er mwyn deall sut maent yn gweithredu. | Anfonwyd y rhestr at Aelodau'r Cyngor.<br><br>Yn ychwanegol, cynhaliwyd cyfarfodydd â'r swyddogion arweiniol a enwyd i amlinellu eu rôl mewn perthynas â'r Cynllun ar gyfer Busnes.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y galw. | Cyflawnwyd |
| **Argymhelliad 4:** | | |
| Dylid paratoi blaengynllun o faterion ymgynghori a'i roi i randdeiliaid. | Mae hyn yn cael ei ddatblygu a bydd yn rhan o rôl yr uwch-swyddog Adrannol enwebedig sy'n gyfrifol am y Cynllun ar gyfer Busnes. | Parhaus |
| **Argymhelliad 5:** | | |
| Pan fo adrannau yn mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid, dylent gynnwys Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, neu'r sefydliad olynol, fel rhan o'u proses ymgysylltu fel mater o drefn, er mwyn galluogi'r Uned, neu'r sefydliad olynol, i gefnogi'r partneriaid cymdeithasol fel y bo'n briodol. | I gefnogi hyn, mae swyddogion yr Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cynnal cyfarfodydd â swyddogion enwebedig ac Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru i hwyluso gwell ymwybyddiaeth o'r uned a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi i gynorthwyo'r gwaith o ymgysylltu â Phartneriaid Cymdeithasol. | Parhaus a bydd yn rhan o'r adroddiada u diweddaru blynyddol priodol. |
| **Argymhelliad 6:** | | |

Papur i’w nodi
CfER 07/10/2013

| **DIWEDDARIAD AR ARGYMHELLION ADOLYGIAD 2013 Y CYNLLUN AR GYFER BUSNES** | | |
|---|---|---|
| Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru roi adroddiadau diweddaru blynyddol i Gyngor Adnewyddu'r Economi ar weithrediad y Cynllun Busnes ym mhob adran. Dylai Cyngor Adnewyddu'r Economi gytuno ar ddyddiad cau blynyddol ar gyfer yr adroddiadau hyn. | Mae’r Gweithgor wedi trafod a chytuno y caiff yr adroddiadau diweddaru eu cyflwyno i’r Gweithgor wedi’u dilyn gan bapur i’w nodi yng nghyfarfod dilynol Cyngor Adnewyddu’r Economi. Rhagwelir y caiff yr adroddiadau hyn eu cyflwyno gyda phapurau cyfarfodydd y Cyngor yn Chwefror a Mehefin 2014. | Chwefror a Mehefin 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 7:** | | |
| Dylai cyfarfodydd Cyngor Adnewyddu'r Economi ganolbwyntio ar faterion y mae angen penderfynu a gweithredu arnynt. Dylid adolygu cynrychiolaeth Cyngor Adnewyddu'r Economi a'r Gweithgor wrth ddiweddaru'r Cynllun Busnes (Argymhelliad 1) a dylid gwneud mwy o ddarpariaeth i is-grwpiau gynnal cyfarfodydd er mwyn ymdrin â phynciau penodol i'w trafod neu er gwybodaeth. | Bydd eitemau cyfarfodydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn parhau i gael eu nodi a'u hawgrymu gan y Gweithgor.<br><br>Trafodwyd cynrychiolaeth gan y Gweithgor a chytunwyd y dylai'r drefn bresennol barhau. Cytunwyd hefyd y dylai cyfarfodydd thematig oddi allan i gylch ffurfiol cyfarfodydd Cyngor Adnewyddu'r Economi barhau, oherwydd roedd yn ffordd ddefnyddiol o wella ymgysylltiad a datblygiad polisi. Adlewyrchir hyn yn niweddariad y Cynllun Busnes. Cynllunnir cyfarfodydd o'r fath ar hyn o bryd. | Parhaus/ cwblhawyd |
| **Argymhelliad 8:** | | |
| Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod capasiti ar gael a bod y capasiti hwnnw'n gyfrifol am asesu a yw Asesiadau Effaith Rheoleiddiol / Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol wedi rhoi cyfrif priodol o effaith deddfwriaeth arfaethedig ar fusnes ac effaith newidiadau polisi arfaethedig nad oes angen deddfwriaeth arnynt ar fusnes. | Mae gan broses ymgynghori Llywodraeth Cymru ganllawiau clir i swyddogion ynghylch gofynion yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, dyma fater sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd i weld sut gellir datblygu arfer ymhellach. Trafodir hyn gan y Gweithgor. | Parhaus |